wsa: newyddion

Ychwanegiadau Newydd i Wefan Cymdeithas Chwaraeon Cymru

Mae Cymdeithas Chwaraeon Cymru (WSA) wedi ychwanegu nifer o nodweddion i'w gwefan yn ddiweddar ar gyfer cyrff llywodraethu. Mae'r rhain yn cynnwys dogfennau cyfreithiol newydd sbon a chwbl gyfredol, rhaglen hyfforddiant newydd ar gyfer 2008/09 (tudalen 5) a dogfennau a chanllawiau rheoli risg.

Dogfennau Cyfreithiol

Mae Cymdeithas Chwaraeon Cymru wedi cyflogi gwasanaethau cwmni cyfreithwyr Edward Geldards ar gyfer materion sy'n ymwneud â chyfraith cyflogaeth, adnoddau dynol a dogfennau cyfreithiol. Gall aelodau logio mlaen i'r wefan i gael mynediad at y canlynol:

- Polisïau Cyflogaeth Enghreifftiol
- Taflenni Ffeithiau
- Canllawiau a Nodiadau Cyfarwyddyd
- Templedi
- Pecynnau Gwerthuso
- Dogfennau Adnoddau Dynol

Ceir mynediad i'r dogfennau hyn trwy logio mlaen i adran aelodau'r wefan. Os ydych chi wedi anghofio'ch enw defnyddiwr a'ch cyfrinair cysylltwch â Greta ar 0845 846 0020 neu e–bostiwch greta.gueresi–leach@welshsports.org.uk.

Dogfennau Rheoli Risg

Yn dilyn y gweithdy asesu risg a gynhaliwyd gan y WSA ar 21ain Mai 2008, mae'r dogfennau a drafodwyd yn ystod y sesiwn wedi'u llwytho ar y wefan i'r cyrff llywodraethu gael mynediad atynt. Mae'r rhain yn cynnwys enghreifftiau o bolisïau rheoli risg, cynlluniau parhad a chofrestrau rheoli risg. I gael mynediad at y dogfennau hyn ewch i www.welshsports.org.uk/riskinsurance.asp .

Cymdeithas Chwaraeon Cymru'n Dyfarnu £10,000 mewn Grantiau Tramor

Pob blwyddyn mae nifer o'r athletwyr gorau o fewn gweithgareddau awyr agored yng Nghymru'n ddigon ffodus i gael cymryd rhan mewn hirdeithiau arloesol i rai o ardaloedd hyfrytaf a mwyaf ynysig y byd.

Ni fyddai nifer o'r hirdeithiau hyn yn digwydd oni bai am yr arian sydd ar gael gan Gymdeithas Chwaraeon Cymru trwy Gyngor Chwaraeon Cymru. Mae'r panel Hirdeithiau Tramor sy'n gwneud y pen–derfyniad ynghylch cynnig arian yn cy–nnwys cynrychiolwyr Cyrff Llywodraethu'r chwaraeon sy'n gysylltiedig â'r ceisiadau a dderbynnir.

Ym mis Ebrill 2008 gwyliwyd chwe chyflwyniad a dyfarnwyd cyfanswm o £10,000 tuag at gostau hirdeithiau. Roedd y buddiolwyr eleni'n cynnwys taith baragleidio ar draws godrefryniau'r Himalaia, taith ddringo yng Ngorllewin Hombori yn isra–nbarth y Sahara a hwylio caiac ar y môr o amgylch yr Ynys Las.

Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn grant rhaid i'r hirdaith gael ei hystyried fel un sy'n torri tir newydd, rhaid i fwyafrif y tîm fod wedi'u geni yng Nghymru, yn byw yng Nghymru, neu fod â rhieni sy'n Gymry ac yn olaf rhaid iddynt gael cefnogaeth eu corff llywodraethu.

Mae mwy o wybodaeth ar www.welsh–sports.org.uk/overseasexpeditions.asp.

Cynllun Fetio a Gwahardd yr ISA
Atebion i'ch cwestiynau …. *tudalen 2*

Y System Ymfudo
Y datblygiadau diweddaraf …. *tudalen 3*

Gweinyddwr Chwaraeon y Flwyd-dyn *Enillydd 2008 ….. tudalen 3*

Rhaglen Hyfforddi 2008/09
Cyrsiau newydd ar gael ….*tudalen 5*

wsa:
serving welsh sport
gwasanaethu chwaraeon cymru

Cynllun Fetio a Gwahardd – Atebion i'ch Cwestiynau

Mae Cymdeithas Chwaraeon Cymru wedi derbyn nifer o gwestiynau gan gyrff llywodraethu am gynllun fetio a gwahardd newydd yr Awdurdod Diogelu Annibynnol (ISA) sy'n dod i rym yn Hydref 2009. Mae'r erthygl hon yn ceisio ateb nifer o'r cwestiynau hyn.

Beth yw Fetio a Gwahardd?

Gosododd Deddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006 y sylfaen ar gyfer cynllun fetio a gwahardd newydd, fydd yn cael ei gyflwyno gam wrth gam o 12 Hydref 2009. Mae'n anelu at atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant a/neu oedolion agored i niwed trwy wella'r gweithdref–nau sgrinio ar gyfer darpar weithwyr neu wirfoddolwyr.

Beth yw Rhestrau Gwahardd?

Mi fydd yna restr sengl o'r rhai sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant, a rhestr arall ar wahân, ond cyfochrog, o'r rhai sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gydag oedolion agored i niwed. Bydd y rhain yn integreiddio ac yn disodli'r holl restrau cyfredol eraill o unigolion sydd wedi'u gwahardd. Bydd yr Awdurdod Diogelu Annibynnol yn gyfrifol am benderfynu pwy ddylid eu gosod ar y rhestrau gwahardd ac am gadw cofnod o'r unigolion hynny. Bydd y Swyddfa Cof–nodion Troseddol (CRB) yn rhedeg y broses ymgeisio. Ni wahaniaethir rhwng gwaith gyda thâl a di–dâl, a bydd yr holl reolau'n gymwys i wirfoddolwyr a gweithwyr cyflogedig fel ei gilydd.

Beth fydd yn Wahanol?

Bydd unrhyw sefydliad sydd am gyflogi staff gyda thâl neu staff gwirfoddol dan ymrwymiad cyfreithiol i ddilyn y broses wirio. Byddant dan ymrwymiad cyfreithiol hefyd i ddarparu unrhyw wybodaeth berthnasol ynghylch gweithiwr presennol neu gynweithiwr, a chosbir unrhyw drosedd gyda dirwy.

A Fydd Angen i Sefydliadau Newid Unrhyw Beth?

Gall fod angen i sefydliadau newid eu polisïau diogelu. Mae'n bosib y byddant hefyd am ystyried pwy yn y sefydliad fydd yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda'r cynllun newydd, yn enwedig o ystyried bod sefydliadau sy'n cynnal gweithgareddau rheoleiddiedig neu reoledig dan ymrwymiad cyfreithiol ac yn wynebu'r posibilrwydd o ddwyn cyhuddiad troseddol yn eu herbyn os torrir yr ymrwymiad hwnnw. Dylai sefydliadau barhau i gynnal asesiadau risg a gwirio eu trefniadau diogelwch e.e. gofyn am eirda, ac edrych ar ffyrdd o leihau risg.

Beth yw'r Broses?

Y gweithiwr neu'r gwirfoddolwr yn penderfynu cofrestru i weithio gydag oedolion agored i niwed neu blant

↓

Y gweithiwr neu'r gwirfoddolwr yn cael ffurflen gais o wefan yr ISA neu'r cyflogwr

↓

Y gweithiwr neu'r gwirfoddolwr yn cwblhau'r ffurflen gais. Y cyflogwr yn cyflwyno'r ffurflen.

↓

Y SCT(CRB) yn casglu gwybodaeth, gan gynnwys cofnodion troseddol

↓	↓
Y SCT ddim yn canfod unrhyw wybodaeth berthnasol	Y SCT yn canfod gwybodaeth. Yr wybodaeth yn cael ei hanfon i'r ISA i'w hasesu
↓	↓
Y SCT yn darparu rhif cofrestru ISA	Yr wybodaeth yn cael ei hasesu gan arbenigwyr yr ISA
↓	↓
Yn rhydd i weithio (yn amodol ar fonitro parhaus)	Cofrestriad ISA'n cael ei wrthod a'r unigolyn yn cael ei osod ar restr wahardd yr ISA

Beth fydd y Gost?

Cyfanswm y gost fydd £64. Bydd rhan gyntaf y ffi, sef £28 yn talu am y canlynol:

- Costau gweinyddu'r broses gofrestru gyda'r ISA;
- Costau'r system wirio cofrestriad di–oed ar–lein;
- Costau gwirfoddolwyr sy'n cofrestru gyda'r cynllun (gan eu bod yn cofrestru am ddim);
- Costau monitro a diweddaru parhaus yn ystod cyfnod cofrestriad gyda'r cynllun (gydol oes).

Bydd y £36 sy'n weddill yn talu costau'r SCT fel gweinyddwyr y ceisiadau. Y sefydliad sy'n cyflogi ddylai benderfynu p'un ai nhw neu'r gweithiwr ddylai dalu'r costau.

Pa Weithgareddau fydd yn cael eu Heffeithio?

Unrhyw weithgaredd a ddiffinnir fel "gweithgaredd rheoleiddiedig" neu "weithgaredd rheoledig". Mae "gweithgaredd rheoleiddiedig" yn un sy'n cynnwys:

- Cyswllt gyda phlant a/neu oedolion agored i niwed; sydd o "natur benodol" (mae hyn yn cynnwys dysgu, hyfforddi, gofalu, goruchwylio, cynghori, trin neu gludo); ac sy'n digwydd "yn aml", "yn drylwyr" neu "dros nos".
- Cyswllt gyda phlant a/neu oedolion agored i niwed sydd mewn "man penodol" e.e. clwb neu ysgol; sy'n digwydd "yn aml" neu'n "drylwyr".

Cyn i wirfoddolwr fedru dechrau ar weithgaredd rheoleiddiedig rhaid iddo gael ei wirio. Bydd yn drosedd i berson sydd wedi'i "wahardd" i ymgymryd â gweithgaredd rheoleiddiedig. Bydd hefyd yn drosedd i sefydliad sy'n defnyddio gwirfoddolwyr i beidio â gwirio gwirfoddolwr cyn iddo/iddi ddechrau ar weithgaredd rheoleiddiedig gwirfoddol.

Mae "gweithgaredd rheoledig" yn cyn–nwys:

- Gwaith cynnal "mynych" neu "ddwys" mewn lleoliadau iechyd, GIG, Addysg Bellach cyffredinol (e.e. derbynnydd, glanhawr, cynorthwyydd maes parcio, staff arlwyo).
- Y rhai sy'n gweithio i sefydliadau penodol sydd â mynediad rheolaidd i gofnodion sensitif am blant a/neu oedolion agored i niwed.

Bydd yn drosedd i unrhyw sefydliad i ddefnyddio gwirfoddolwr ar gyfer gweithgaredd rheoledig heb wirio ei statws mewn perthynas â'r Cynllun Fetio a Gwahardd. Fodd bynnag, os caiff gwirfoddolwr ei "wahardd" a bod yna drefniadau diogelu digonol ar gael, gall gwirfoddolwr barhau i wirfoddoli mewn gweithgaredd rheoledig.

Mae mwy o wybodaeth, canllawiau a dogfennau ar gael ar www.welshsports.org.uk/childprotection.asp.

Cynghorion ar gyfer Codi Arian

Mae'r Sefydliad Codi Arian wedi ymuno gyda sefydliad Vodafone UK a Swyddfa'r Trydydd Sector i lansio gwefan newydd sy'n cynnig adnoddau a chynghorion ar gyfer codi arian yn llwyddiannus.

Mae'r wefan www.how2fundraise.org yn cynnig cyngor arbenigol a'r cyfle i rannu gwybodaeth gydag eraill trwy gyfrwng ei fforwm.

Ochr yn ochr ag amrywiaeth o syniadau ar gyfer sefydliadau gwirfoddol a chymunedol mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth ar chwaraeon a noddi chwaraeon. Os cawsoch chi'ch llesteirio erioed gan y syniad o ysgrifennu'r llythyr "gofyn" delfrydol hwnnw at noddwr pwysig yna cymerwch olwg ar y templedi y gellir eu lawrlwytho a chewch gymorth ar unwaith i fynd ati i wneud y cyswllt cyntaf hollbwysig hwnnw yn y ffordd iawn.

Ymddiriedolaeth Goffa Winston Churchill

Mae Ymddiriedolaeth Goffa Winston Churchill yn cynnig cyfle ichi gynyddu'ch gwybodaeth a'ch profiad trwy deithio tramor er mwyn bod o fudd i eraill o fewn eich cymuned.

Os cewch chi Gymrodoriaeth, byddwch yn derbyn grant fydd yn cwrdd â'ch holl gostau perthnasol. Yn 2008 roedd y grant ar gyfartaledd yn £5300 oedd yn ddigon ar gyfer arhosiad o rhwng 4 – 8 wythnos (isafswm o 4 wythnos) ond gall fod yn hirach. Mae'r grant yn cynnwys teithio yno ac yn ôl, costau byw bob dydd, teithio mewnol ac yswiriant priodol o fewn y gwledydd yr ymwelir â nhw.

Mae chwaraeon wedi'i ychwanegu erbyn hyn fel categori ar gyfer 2009 a cheir manylion pellach ar wefan yr Ymddiriedolaeth http://www.wcmt.org.uk.

System Ymfudo sy'n Seiliedig ar Bwyntiau

Bu'r Cyngor Canolog dros Hamdden Gorfforol (CCPR) yn cydweithio gyda'r Swyddfa Gartref a'r Asiantaeth Ffiniau i sicrhau bod y system newydd o Ymfudo'n Seiliedig ar Bwyntiau'n gweithio ym myd chwaraeon.

Yn dilyn 18 mis o ymgyrchu brwd, mae'r CCPR wedi dwyn perswâd ar yr Asiantaethau Ffiniau i beidio â gosod system fisa gostus a biwrocrataidd ar bobl chwaraeon sy'n ymweld â'r DU o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.

Lansiwyd y system ymfudo newydd ar 29ain Chwefror 2008 ac mae'n seiliedig ar system bwyntiau Awstralia. Gallai cynigion cynharaf y llywodraeth ar gyfer cyflwyno'r system hon fod wedi costio cannoedd o filoedd o bunnau i sefydliadau chwaraeon bob blwyddyn a'i gwneud hi'n anodd i gyrff llywodraethu ddenu cystadleuwyr o dramor a threfnu pencampwriaethau rhyngwladol.

Fodd bynnag, mae'r CCPR, trwy gydweithio gyda chyrff eraill, wedi ymgyrchu'n llwyddiannus i ymestyn y status quo ar fisas sy'n golygu y gall pobl chwaraeon barhau i ddod mewn i'r wlad dan gategori ymwelwyr yn hytrach na mewnfudwyr.

Bydd y system newydd yn sicrhau na fydd cyrff llywodraethu'n gorfod mynd i gostau ac ymdrech anghymesur er mwyn croesawu ymwelwyr i ddigwyddiadau yn y DU. Bydd statws nifer o bobl chwaraeon yn aros yr un peth dan y system newydd, gyda lleiafrif bach yn dod dan Haenau 2 a 5 o'r System Bwyntiau.

Mewnfudo Haen 2

Mae Haen 2 o'r system bwyntiau'n effeithio ar chwaraewyr proffesiynol a hyfforddwyr sydd am sefydlu eu hunain o fewn tîm yn y DU. Nid yw'r datganiad o fwriad diweddaraf yn dangos fawr o newid o'r fersiynau blaenorol. Bydd yn ofynnol i chwaraewyr a hyfforddwyr gael:

- Noddwr (h.y. y clwb fyddan nhw'n chwarae iddo)
- £800 o gyllid
- Lefel sylfaenol o Saesneg sydd wedi'i brofi ar lafar

Bydd angen i'r Corff Llywodraethu Cenedlaethol perthnasol ardystio i'r noddwr.

Mewnfudo Haen 5

Mae Haen 5 o'r system bwyntiau'n effeithio ar unigolion sydd am ddod i'r DU dros dro. Mae'r datganiad o fwriad drafft diweddaraf (6 Mai 2008) yn cynnwys consesiynau ar gyfer pobl chwaraeon. Y paragraff pwysig o'r datganiad yw:

"Nid yw [Haen 5] yn cynnwys unigolion sy'n dod mewn i'r DU ar hyn o bryd dan y consesiynau didrwydded ar gyfer diddanwyr, gan gynnwys gwyliau didrwydded, a phobl chwaraeon".

Yn y bôn mae hyn yn golygu y bydd pobl chwaraeon sy'n dod mewn i'r wlad ar hyn o bryd fel ymwelwyr yn parhau i gael eu categoreiddio fel ymwelwyr yn hytrach na mewnfudwyr. Felly ni fydd yn rhaid i gyrff llywodraethu cenedlaethol weithredu fel noddwyr ar gyfer unigolion o'r fath. Bydd ymwelwyr o wledydd y mae'r DU angen fisa ar eu cyfer yn dal i orfod cael fisa. Nid yw natur y fisa wedi'i gadarnhau hyd yn hyn. Gall fod yn fisa busnes, visa ymwelydd neu'n fisa chwaraeon newydd.

I gael mwy o wybodaeth am y system fewnfudo sy'n seiliedig ar bwyntiau ewch i www.ccpr.org.uk neu www.homeoffice.gov.uk.

CCPR
One voice for sport and recreation

Enillydd Gwobr Arwr Di–glod y WSA

Pob blwyddyn mae Cymdeithas Chwaraeon Cymru'n cyflwyno 'Gwobr Arwr Di–glod' i unigolyn sydd wedi gwneud cyfraniad aruthrol i chwaraeon yng Nghymru.

Mae'r enillydd eleni'n wirfoddolwr ymroddedig sydd wedi treulio'r 34 mlynedd diwethaf yn sefydlu a datblygu Clwb Rygbi De Gwyr. Mae John Taylor, sy'n 78 oed (ochr dde'r llun) wedi treulio oriau lawer yn datblygu'r clwb ac mae ei ymroddiad wedi sicrhau bod gan y clwb sylfaen cadarn iawn. Trwy ei frwdfrydedd mae'r clwb wedi mynd o nerth i nerth a heddiw mae 'na 140 o blant yn chwarae rygbi ac, am y tro cyntaf, mae ganddyn nhw dîm hyn yn 6ed adran Undeb Rygbi Cymru.

Yn ôl ei enwebydd, John O'Malley, "mae'r cyfraniad a wnaeth [John Taylor] i'r economi leol ac i'r plant a'r oedolion sydd wedi chwarae yn y clwb yn un aruthrol. Mae ei oriau a'i ymroddiad i'r clwb yn ddifesur".



Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y WSA a Gwobr

Cyflwynwyd gwobr Gweinyddwr y Flwyddyn Cymdeithas Chwaraeon Cymru eleni yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 16eg Mehefin.

Dewiswyd Robin Davies (ochr dde'r llun) fel yr enillydd am ei gyfraniad i bêl–droed yn ardal Caerdydd a'r fro. Derbyniodd dlws gwydr a dillad chwaraeon wedi'u noddi gan Errea (gwneuthurwyr dillad chwaraeon Eidalaidd).

Bu'n ysgrifennydd Cynghrair Pêl–droed Caerdydd a'r Fro ers 2005 ac mae hefyd yn Is–gadeirydd. Mae hefyd yn Ysgrifennydd yr Amserlen Gemau ac mae'n aelod o'r Cyngor ar gyfer Cynghrair Caerdydd a'r Fro ar bwyllgor Cymdeithas Bêl–droed De Cymru (SWFA).

Mae hefyd yn aelod o bwyllgor disgyblu SWFA, Pwyllgor Datblygu Ieuenctid SWFA, yn Gadeirydd pwyllgor sancsiynau dan 16 SWFA ac yn aelod o Weithgor SWFA. Mae ei enwebydd, Neil Ward wedi disgrifio Robin fel rhywun sy'n 'rhoi ei holl amser sbâr bron i bêl–droed a'i ddatblygiad … ac sy'n ffynnu ar weld pobl eraill yn mwynhau".

Ar ôl cyflwyno'r wobr cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y WSA, gan dynnu sylw at lwyddiannau'r Gymdeithas dros y 9 mis diwethaf a lansio'r Cynllun Strategol ar gyfer 2008/2010 yn swyddogol. Roedd prif feysydd y gwaith eleni'n cynnwys:

- Cynhyrchu Cynllun Strategol y WSA ar gyfer 2008/2010, gan osod gweledigaeth glir a ffordd ymlaen ar gyfer y Gymdeithas.
- Rhaglen hyfforddi lwyddiannus a fynychwyd gan aelodau staff a gwirfoddolwyr CLIC.
- Cylchlythyrau a gwybodaeth reolaidd i'r cyrff llywodraethu a phobl allweddol yn y diwydiant chwaraeon, AS ac AC.
- Cadeirio cyfarfodydd Cydffederasiwn Chwaraeon Prydain (grŵp sy'n darparu llais sengl ar gyfer gwirfoddolwyr CLIC yn y DU)
- Ymateb i ymgynghoriad cynllun fetio a gwahardd yr ISA ar y cyd â Chyngor Chwaraeon Cymru.
- Mynychu cyfarfodydd gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WVCA a'r CCPR yn rheolaidd a pharhau i lobïo dros y prif anawsterau sy'n wynebu CLIC.

Cymorthdaliadau 'Go Wales' ar gyfer Prosiectau Chwaraeon

Os hoffai eich cymdeithas chwaraeon chi ddechrau ar brosiect yna gall Go Wales helpu. Ariannir Go Wales gan Lywodraeth y Cynulliad a'i nod yw annog cyflogwyr bach i ganolig i recriwtio myfyrwyr/graddedigion.

Mae yna gymhorthdal ar gael i unrhyw un sy'n cynnig lleoliad gyda thâl i fyfyriwr neu fyfyriwr graddedig yn rhan amser neu'n amser llawn. Yn y bôn, os bydd clwb yn cynnig lleoliad sy'n talu lleiafswm o £230 yr wythnos (ar gyfer rhwng 6 a 10 wythnos amser llawn neu'n hirach ar gyfer lleoliad rhan amser) yna gallant gael £90 yr wythnos yn ôl gan Go Wales. Mae Go Wales wedi helpu i sefydlu lleoliadau gwaith ar gyfer Dadansoddi Perfformiad, hyfforddiant magu nerth a gofalu am y corff, yn ogystal â marchnata chwaraeon. Ond gall y lleoliadau gwaith fod ar unrhyw agwedd o'ch busnes, er enghraifft datblygiad cymunedol, codi arian, arlwyo ayb. Os ydych chi'n meddwl y gallai fod o fudd i'ch clwb chi ddechrau prosiect yna gall Go Wales eich helpu.

Mae agweddau eraill o'r rhaglen Go Wales yn cynnwys sesiynau blasu profiad gwaith di–dâl a drefnir gan wasanaethau gyrfaoedd Prifysgolion i helpu myfyrwyr a graddedigion i gael profiad o yrfa neu ddiwydiant arbennig. Hefyd ar gael mae cyngor ynghylch datblygiad proffesiynol parhaus a chymorth gyda hyfforddiant a datblygiad ar gyfer sefydliadau sy'n cyflogi graddedigion.

Os hoffech chi drafod unrhyw syniadau neu os hoffech chi wybod mwy am weithio gydag UWIC, cysylltwch â Janet Rowlands, Colin Hinds Payne neu Nigel Davies ar 029 20416333 neu e–bostiwch: gowales@uwic.ac.uk. Mae mwy o wybodaeth ar gael hefyd ar wefan Go Wales www.gowales.co.uk.

Rhaglen Hyfforddi CLIC 2008/09

Mae Cymdeithas Chwaraeon Cymru'n parhau i ddarparu gweithdai a hyfforddiant pynciol ar gyfer ei haelodau, sydd wedi'u cynllunio i'ch helpu chi a'ch staff i wella'ch sgiliau a thaclo prif faterion a phroblemau.

Bydd ein cyfres ddiweddaraf o hyfforddiant yn rhedeg o fis Medi 2008 drwodd i haf 2009. Mae cyrsiau sy'n cael eu cynnal yng Nghas–newydd a Chaerdydd i'w gweld ar www.welshsports.org.uk/training.asp . Rydym wedi cadw at rhai o'n cyrsiau mwyaf poblogaidd a defnyd–diol o'r blynyddoedd a fu, wedi ail–wampio eraill, ac wedi cyflwyno rhai newydd.

Mae'r cyrsiau a gynigir yn cynnwys pynciau megis cyfraith cyflogaeth, datblygiad personol a phroffesiynol, Adnoddau Dynol a recriwtio a marchnata. Darperir yr hyfforddiant yn Ne Cymru gan Siambr Fasnach Casnewydd a Gwent a chwmni cyfreithwyr Hugh James yng Nghaerdydd.

Os hoffech chi archebu hyfforddiant noder mai'r cyntaf i'r felin fydd hi ac nad oes yna gymaint â hynny o lefydd felly fe'ch cynghorir i archebu'n gynnar. Cadwch lygad ar agor am gyrsiau eraill a ychwanegir yn nes ymlaen yn y flwyddyn. Bydd manylion y rhain ar gael ar y wefan ac fe'u hanfonir i'r holl gyrff llywodraethu.

I archebu lle neu i gael mwy o wybodaeth cysylltwch â Greta ar 0845 846 0020 neu e–bostiwch greta.gueresi–leach@welshsports.org.uk. Mae'r cyrsiau sydd ar gael yng Nghas–newydd a Chaerdydd rhwng Medi a Rhagfyr 2008 fel a ganlyn:

HUGH JAMES

Medi 2008	
Hyfforddi'ch Staff i Lwyddo	4ydd
Hanfodion y Gyfraith Gylogaeth	9fed
Technegau Recriwtio a Dethol	10fed
Gwneud Apwyntiadau Busnes dros y Ffôn	11eg
Gwerthuso Gweithwyr a Gosod Amcanion	12fed
Rheoli Amser	15fed
Sgiliau Hyfforddi a Mentora	16eg
Sgiliau Dirprwyo	19eg
Ariannu ar gyfer Rheolwyr Anariannol	24ain
Rhwydweithio i Lwyddo mewn Busnes	26ain

Hydref 2008	
Hanfodion y Gyfraith	2ail
Sgiliau Arweinyddiaeth	3ydd
Gwarthnodi yn Bersonal	6ed
Ddisgybla a grievance yn teimlo	8ed
Amrywiaeth i mewn ymarfer	9fed
Cyd–drafod i Lwyddo mewn Busness	10fed
Rheoli Newidiadau Cyfundrefnol	13fed
Sgiliau Cyflwyno	17eg
Ymdopi adroddiadau	22ain
Pendantrwydd ar gyfer Rheolwyr	24ain
Technegau Gwerthu Proffesiynol	29th
Datblygu 'n dal berfformiad dimau	30ain

Tachwedd 2008	
Ariannu ar gyfer Rheolwyr Anariannol	3ydd
Rhwydweithio i Lwyddo mewn Busnes	6ed
Rheoli Newidiadau Cyfundrefnol	6ed
Rheoli Prosiectau	10fed
Rheoli Amser	17eg
Datrys Gwrthdaro	19eg
Deall Sut i Reoli Llif Arian	21ain
Adnoddau Dynol ar gyfer Rheolwyr Llinell	22ain
Sgiliau Cyfathrebu Effeithiol	24ain
Sgiliau Marchnata Hanfodol	26ain
Technegau Gwerthu Proffesiynol	27ain
Amrywiaeth a'r Gyfraith	27ain
Rhagori mewn Gofal Cwsmeriaid	28ain

Rhagfyr 2008	
Pendantrwydd ar gyfer Rheolwyr	3ydd
Mamolaeth a Materion Teuluol	11eg
Sgiliau Arweinyddiaeth	12fed
Recriwtio: Sut i Gael y Bobl Iawn	16eg
Sgiliau Cyflwyno	17eg
Cyd–drafod i Lwyddo mewn Busness	19eg

ngb2b your local chamber of commerce

Proffil Staff

Enw: Niki Adams

CLIC: Cymdeithas Jiwdo Cymru

Swydd: Rheolwr Cyffredinol

Hobïau/Diddordebau:

Rwyf wedi dechrau Cerdded Nordig yn ddiweddar ac rwy'i wedi gwirioni arno! Rwyf hefyd yn hoffi darllen ac rwy'n mwynhau'r celfyddydau. Rwy'n berson awyr agored ac yn gobeithio rhoi cynnig ar rwyfo a hwylio caiac yn y dyfodol agos. Hefyd mae gen i ddiddordeb yn yr amgylchedd a bod yn ecogyfeillgar.

Llwybr Gyrfa:

Cymerais ran yng ngemau Olympaidd 1996 gan gynrychioli Canada mewn Jiwdo ac roeddwn yn Bencampwr America Gyfan. Cwrddais â fy ngŵr, Neil Adams (Hyfforddwr Cenedlaethol Cymru) yng Ngemau Olympaidd 2000 yn Sydney pan oedd y ddau ohonom yn sylwebu ar gyfer y BBC a'r CBC. Ar y pryd roeddwn yn Gydlynydd Lles ar gyfer Nokia Canada. Ar ddiwedd y cytundeb, symudais i Brydain yn 2001. Gofynnwyd imi fod yn Hyfforddwr Jiwdo Menywod Cymru, yna deuthum yn Rheolwr Swyddfa Cymdeithas Jiwdo Cymru. Gan fod fy mhlant yn mynd i'r ysgol nawr, roeddwn wrthi'n ystyried mynd yn ôl i weithio'n llawn amser pan ddaeth swydd Rheolwr Cyffredinol CJC ar gael. Nawr rwy'n gweithio'n llawn llawn amser!

Y prif sialensiau sy'n wynebu eich sefydliad:

Gweithio gyda'r rhaniad rhwng De a Gogledd Cymru a'r wleidyddiaeth sy'n mynd gyda hynny. Rwy'n gobeithio defnyddio fy mhrofiadau i wanhau'r ffin hwn ac agor y llinellau cyfathrebu rhwng y rhanbarthau. Sialens arall yw newid meddylfryd yr aelodau ynghylch troi'n wyrdd. Pan dderbyniais i'r swydd, fedrwn i ddim credu faint o bapur mae'r swyddfa'n ei ddefnyddio! Bu'r wefan newydd yn llwyddiant mawr ac mae nifer o'r aelodau'n talu am eu haelodaeth arlein nawr.

Pethau ry'ch chi'n mwynhau fwyaf am eich swydd:

Rwy'i bob amser yn mwynhau cwrdd â phobl newydd ac mae digon o hynny'n digwydd yn y swydd hon! Rwy'i hefyd yn hoffi rhoi cynnig ar raglenni gwahanol i gynyddu ein haelodaeth.

Pethau nad ydych yn mwynhau.

Llungopïo

Petaech yn cael un dymuniad, beth fyddai hwnnw?

Cael ein 'dojo' newydd yn Sefydliad Chwaraeon Cymru erbyn mis Medi. Bydd y dojo newydd yn gwneud gwahaniaeth aruthrol i'n rhaglen a byddai ei gael yn gynt na'r disgwyl yn wych!!!

Pa dri gair sy'n eich disgrifio orau?

Angerddol, hawdd mynd ati, gweithgar

Person ifanc o'ch camp i gadw golwg arno/arni yn y dyfodol?

Mae sawl un ond yr un sy'n sefyll allan yw Curtis Dodge, ein chwaraewr iau 60kg. Bydd e'n mynd mor bell ag y mae'n dymuno mynd.

Cyngor gorau a gawsoch erioed?

Dwedodd athletwr Jiwdo Olympaidd wrthyf unwaith "waeth pa mor uchel wyt ti'n mynd, waeth faint o hyfforddwyr gei di ar y daith i fyny, byddi wastad yn cydnabod dy hyfforddwr cyntaf un, gan mai nhw roddodd y sylfaen i ti".

Pobl Chwaraeon Cymru ar Restr Anrhydeddau Pen–blwydd y Frenhines

Mae rhestr Anrhydeddau Pen–blwydd y Frenhines 2008 a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn talu teyrnged i lwyddiant a gwasanaeth aruthrol ar draws y gymuned gyfan.

Bu nifer o'r rhai a anrhydeddwyd yn gwneud gwaith elusennol neu wirfoddol, neu'n ymgymryd â gweithgareddau allgyrsiol yn gysylltiedig â'u swyddi. Mae hyn yn cyd–fynd â bwriad y Prif Weinidog bod y mwyafrif helaeth o'r anrhydeddau'n mynd i arwyr lleol sy'n rhoi o'u hamser i wasanaethu eu cymunedau.

Eleni anrhydeddwyd nifer o bobl o Gymru am eu gwasanaeth i chwaraeon a'r gymuned.

Roedd Hilary King, Llywydd Cyngor Bowlio Dan Do'r Byd, ymhlith y rhai a anrhydeddwyd am eu cyfraniad i fyd chwaraeon.

Mae Hilary, y fenyw gyntaf i ennill teitl Gweinyddwr y Flwyddyn gyda Chymdeithas Chwaraeon Cymru yn 1992, wedi cael gyrfa ddisglair ers iddi ymuno â Chlwb Bowlio Menywod Treherbert yn 1965. Ar ôl treulio 18 mlynedd fel ysgrifennydd y clwb fe'i hetholwyd yn gadeirydd yn 1994. Ymunodd Mrs King â Chlwb Bowlio Dan Do'r Rhondda ac fe'i gwnaed yn ddyfarnwr yn 1981. Rhwng 1982 ac 1984 roedd hi'n ysgrifennydd Cymdeithas Bowlio Dan Do Menywod Cymru. Yn 1985 fe'i gwnaed yn gadeirydd Cymdeithas Dyfarnwyr Benywaidd Cymru. Fe'i gwnaed yn aelod oes o Gyngor Bowlio Dan Do'r Byd.

Ymhlith y Cymry adnabyddus a gafodd eu hanrhydeddu roedd seren y byd bocsio Joe Calzaghe, a dderbyniodd MBE cyn hynny yn 2003. Hefyd anrhydeddwyd Cyn–gadeirydd Morgannwg a Bwrdd Criced Cymru a Lloegr am ei wasanaeth i'r gêm.

Caiff y clychlythyr yma ei gyhoeddi gan Gymdeithas Chwaraeon Cymru, Sefydliad Chwaraeon Cymru, Gerddi Sophia, Caerdydd CF11 9SW. Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau neu erthyglau ar gyfer cael eu cyhoeddi yn y dyfodol at y golygydd yn y cyfeiriad uchod neu at greta.gueresi–leach@welshsports.org.uk.

Er mai cyhoeddiad swyddogol Cymdeithas Chwaraeon Cymru yw hwn, nid yw'r syniadau a'r farn yn y cylchlythyr hwn o reidrwydd y rhai hynny a rannir gan Cym.ChC.

Dylai unrhyw un sy'n dymuno rhoi hysbyseb neu noddi cylchlythyr Cym.ChC gysylltu â Greta Gueresi–Leach ar 0845 846 0020 neu drwy e–bost greta.gueresi–leach@welshsports.org.uk.

wsa:

serving welsh sport
gwasanaethu chwaraeon cymru